

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y 10fed o Ragfyr 2013.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Dafydd Glyn Owen (Cadair), Harry Wyn Owen – Talysarn; Elwyn Jones-Griffith, Iwan Lloyd Williams, Barry Bracegirdle, Ifan Glyn Jones – Penygroes; OP Huws, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Eurig Wyn Evans – Nebo.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor Cymuned:

53 Ffordd Rhedyw, Llanllyfni – Estyniad cefn.

Llwydcoed Canol, Llanllyfni – dymchwel ty deulawr presennol ac adeiladu ty rhannol deulawr yn ei le.

Padarn, 2 Coed Madog, Talysarn – Dymchwel wal derfyn presennol a creu mynedfa newydd a man parcio.

Ty Mawr, Talysarn – Diddymu amodau 3 a 4 ar ganiatad cynllunio C05A/0484/22/LL i alluogi defnyddio uned wyliau fel uned anheddol parhaol.

Ty Mawr, Talysarn – Newid defnydd o anecs domestig presennol I fflat breswyl ar wahan.

Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion i gwynion: Arwydd i'w gael ei osod yn nhro cyffordd y Berth yn yr wythnosau nesaf; Cau twll yn ffordd Penchwarel ar raglen gwaith y Cyngor.

*Hysbysfwrdd i Lanllyfni: Y Cyngor Cymuned yn cytuno i gymryd cyfrifoldeb o'r hysbysfwrdd arfaethedig, unwaith y bydd Cyngor Gwynedd wedi ei osod.

*Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Trafodwyd y mapiau/cynlluniau ar gyfer pentref Penygroes.

Bydd y Cyngor yn gyrru sylwadau fel a ganlyn : nid oes angen ychwanegu at y cynllun presennol, gan fod mwy na digon o safleoedd yma'n barod, a neb wedi symud ymlaen i'w datblygu. Byddwn yn gyrru gwrthwynebiadau ar sail diogelwch ffordd, safleoedd yn rhy agos i'r ffordd osgoi, ac agoswydd at safle mwynderau. Mae angen datblygiadau fod yn raddol ac yn ol y galw.

Arall

*Derbyniwyd llythyr gan Angharad Tomos parthed cyfarfod y bydd grwp 'Dyffryn Nantlle 2020' yn ei gynnal i drafod syniadau ar goffau cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

*Byddwn yn gyrru llythyr o gefnogaeth i gais grant Pwyllgor Neuadd Goffa Penygroes i wella'r system gwresogi.

Materion Pentrefi.

Llanllyfni: Cafwyd trafodaeth am gynllun graeanu palmentydd a oedd am gael ei gyflwyno ym mhentref Llanllyfni. Byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd gyda'n pryderon am y cynllun hwn, megisd materion yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yn y blaen. Ni fedrai'r Cyngor Cymuned gefnogi na gwrthwynebu'r cynllun hwn nes derbyn mwy o wybodaeth.

Penygroes Baw cwn yn broblem – mae angen addysgu perchnogion cwn yn yr ardal, ac annog pobl i ffonio Cyngor Gwynedd petaent yn gweld perchennog yn gadael i'w ci faeddu'r stryd. Byddwn yn cynnig swyddog cwn Cyngor Gwynedd i ddod i gyfarfod i drafod.